Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Diweddariad Polisi'r UE (EU2013.5): Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) 2

## Diweddarwyd: Hydref 2013

## Cyflwyniad

Ar 13 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd becyn o gynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC). Yn ogystal â hynny, ym mis Rhagfyr 2011 cyhoeddodd y Comisiwn gynigion ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, sef yr offeryn ariannol a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r PPC diwygiedig.

Daeth y sefydliadau Ewropeaidd i gytundeb ar ddiwygio'r PPC ym mis Mai 2013 a daw'r gofynion newydd i rym o fis Ionawr 2014 ymlaen.

Mae trafodaethau ynghylch Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn dal i fynd rhagddynt a disgwylir i Senedd Ewrop bleidleisio ar ei safbwynt o ran y cynigion ym mis Hydref 2013. Mae Cyngor y Gweinidogion eisoes wedi cytuno ar ei safbwynt cyffredinol.

*Cymorth Gwladwriaethol a Physgodfeydd*

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal adolygiad o'r rheoliadau presennol ynghylch Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer Pysgodfeydd a Dyframaethu, gyda'r bwriad o gyhoeddi rheoliadau diwygiedig yn 2014.[1] Arweinir yr adolygiad hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Faterion Morol a Physgodfeydd, ar y cyd â'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gystadleuaeth. Bydd yr adolygiad yn edrych ar sut mae angen addasu'r fframwaith cyfreithiol yng nghyd-destun y diwygiadau diweddar y cytunwyd arnynt ar gyfer y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ac yn unol â phrofiadau pobl o ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn y sector Pysgodfeydd a Dyframaethu dros y pum mlynedd diwethaf.

## Crynodeb o'r prif Ddiwygiadau i'r PPC y cytunwyd arnynt

Mae'r rheoliad sylfaenol yn nodi'r prif amcanion a rheolau a fydd yn llywodraethu'r PPC diwygiedig.[2] Gwneir nifer o newidiadau newydd a phwysig i'r Polisi.

- **Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf:** Mae'r aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop wedi cytuno y dylid pysgota stociau pysgod yn yr UE ar lefelau sy'n uwch na'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf[3] erbyn 2015 oni fyddai hynny'n peryglu cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd fflydoedd pysgota yn ddifrifol. Os digwydd hynny, dylid cyflawni cynnyrch cynaliadwy mwyaf cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf.

[1] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Government subsidies to the fisheries and aquaculture sector***, (Gwefan) [fel ar 27 Medi 2013]
[2] Gellir gweld testun y cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar wefan y Comisiwn **yma.** Gellir gweld testun y rheoliad y cytunwyd arno gan Senedd Ewrop a'r Cyngor **yma.**
[3] Diffinir cynnyrch cynaliadwy mwyaf fel y swm mwyaf o stoc o rywogaeth y gellir ei gymryd heb effeithio ar allu'r rywogaeth i atgenhedlu a chynnal ei hun.

- **Cynlluniau Amlflwydd:** Mabwysiedir cynlluniau ecosystem amlflwydd ar gyfer rheoli pysgodfeydd cyfan lle y bo'n bosibl. Bydd angen i'r cynlluniau gynnwys amcanion clir ar gyfer rheoli'r bysgodfa a chael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r Cynghorau Ymgynghorol.
- **Rheoli Pysgodfeydd yn rhanbarthol:** Cytunwyd i fabwysiadu dull gweithredu mwy rhanbarthol ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Gall aelod-wladwriaethau gydweithio ar sail moroedd rhanbarthol er mwyn mabwysiadu argymhellion ac offerynau ar y cyd i reoli'r pysgodfeydd perthnasol. Yna cyflwynir y cynigion ar y cyd i'r Comisiwn Ewropeaidd eu mabwysiadu. Os bydd aelod-wladwriaethau'n methu â chytuno ar fesurau ar y cyd erbyn y dyddiad a nodir, gall y Comisiwn Ewropeaidd gynnig ei fesurau ei hun a'u mabwysiadu drwy'r weithdrefn gyfreithiol berthnasol.
- **Mynediad i'r Cwota:** Gall aelod-wladwriaethau gyflwyno system o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy os ydynt yn dymuno gwneud hynny[4] ond ni fydd angen iddynt wneud hynny mwyach fel y cynigwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn.

  Wrth ddosbarthu'r cwota dylai aelod-wladwriaethau geisio rhoi blaenoriaeth i'r fflyd arfordirol, fach.

  Dylai aelod-wladwriaethau ddosbarthu'r cwota yn unol â meini prawf tryloyw a gwrthrychol gan gynnwys rhai amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Dylid hefyd roi cymhellion cwota i'r gweithredwyr sy'n defnyddio'r dulliau pysgota lleiaf niweidiol i'r amgylchedd.

[4] Roedd y Comisiwn wedi cynnig system orfodol o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy lle y byddai pob cwch dros 12 metr o hyd yn cael cwota i'w ddefnyddio ei hun neu ei brydlesu i gychod eraill.

- **Capasiti'r Fflyd:** Bydd angen i aelod-wladwriaethau baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar gapasiti eu fflyd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu a oes unrhyw gorgapasiti strwythurol yn eu fflyd. Os gwelir achosion o gorgapasiti, bydd angen i'r aelod-wladwriaethau perthnasol lunio cynllun gweithredu sy'n nodi sut yr eir i'r afael â hyn.
- **Taflu pysgod:** Cytunwyd i gyflwyno 'rhwymedigaeth lanio' neu i wahardd yr arfer o daflu pysgod yn raddol fesul pysgodfa o 2015 ymlaen. Fe'i cyflwynir ar gyfer pob pysgodfa a gwmpesir gan y PPC erbyn 2019. Fodd bynnag, gall aelod-wladwriaethau gyflwyno eithriad de-minimus, hynny yw, canran na fyddai'n destun gwaharddiad os bydd tystiolaeth wyddonol yn dangos ei bod yn anodd iawn pysgota mewn ffordd ddetholus mewn pysgodfa benodol neu os bydd y gost o osgoi dal pysgod nad oes eu hangen yn anghymesur.

  Bydd eithriad i'r rhwymedigaeth lanio hefyd yn gymwys i bysgod nad oes eu hangen a gaiff eu dal os bydd y dystiolaeth wyddonol orau'n dangos eu bod yn aml yn llwyddo i oroesi ar ôl iddynt gael eu dychwelyd i'r môr.

  Ni chaniateir i unrhyw bysgod a gaiff eu glanio sy'n llai na'r isafswm maint gwarchod gael eu gwerthu i'w bwyta gan bobl.

  Er mwyn paratoi ar gyfer y rhwymedigaeth lanio, gall aelod-wladwriaethau gyflwyno cynlluniau peilot i brofi a gwella detholusrwydd eu hoffer.[5]

[5] Mae detholusrwydd offer yn ymwneud â gwella'r offer pysgota a ddefnyddir gan gychod i ddal pysgod er mwyn sicrhau y gall dargedu'r rywogaethau y maent yn ceisio eu dal yn well. Mae detholusrwydd offer gwell yn lleihau nifer y pysgod diangen a gaiff eu dal.

- **Casglu Data:** Bydd angen i aelod-wladwriaethau gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar eu cynlluniau ar gyfer casglu data a chyhoeddi'r cynllun hwn. Bydd angen i aelod-wladwriaethau sicrhau bod data ar gael i bobl â diddordeb a bydd y gwaith a wneir gan aelod-wladwriaethau i gaffael data yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop.
- **Dyframaethu:** Mae dyframaethu wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith y PPC. Bydd angen i aelod-wladwriaethau ddatblygu cynlluniau strategol cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dyframaethu cynaliadwy yn eu tiriogaethau. Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau bydd angen i'r Comisiwn Ewropeaidd ddatblygu canllawiau ar gynnwys y cynlluniau i'r aelod-wladwriaethau.

## Trefn y Farchnad Gyffredin

Mae'r sefydliadau Ewropeaidd hefyd wedi cytuno ar y cynigion i ddiwygio'r farchnad gyffredin ar gyfer pysgodfeydd.[6] Bydd y diwygiadau y cytunwyd arnynt yn arwain at gyflwyno label eco newydd ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd. Bydd y label hon yn ceisio gwella gwybodaeth defnyddwyr am gynaliadwyedd, safon a'r gallu i olrhain cynhyrchion pysgodfeydd. Mae rôl Sefydliadau Cynhyrchwyr yn y gwaith o fonitro, rheoli a sicrhau cydymffurfiaeth eu haelodau wedi'i hatgyfnerthu hefyd.

## Perthnasedd i Gymru

Mae'r PPC yn berthnasol i foroedd tiriogaethol aelod-wladwriaethau y tu allan i 12 milltir forol.

Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am reoli a gorfodi'r PPC y tu allan i ffin forol orllewinol y DU ag Iwerddon.

[6] COM (2011) 416

Yn 2011 roedd 693 o bysgotwyr masnachol rheolaidd yng Nghymru a thua 298 o bysgotwyr masnachol rhan amser.[7] Mae tua 465 o gychod wedi'u cofrestru i bysgota o Gymru ac mae 425 ohonynt yn llai na 10 metr o ran hyd. Mae hynny'n golygu mai natur fach ac arfordirol sydd i'r mwyafrif llethol o'r fflyd yng Nghymru.[8] Er bod cylch gwaith y PPC yn llai tebygol o fod yn berthnasol i'r pysgotwyr hyn na'r cychod masnachol mawr dros 10 metr o hyd, mae pysgotwyr o Gymru'n pysgota am rywogaethau a gwmpesir gan y PPC. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r elfen o gwota pysgodfeydd y DU sy'n ymwneud â Chymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, wedi croesawu'r cytundeb a wnaed ym Mrwsel. Yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 18 Mehefin, dywedodd y Gweinidog:

> Nid yw'n berffaith, ond mae'n fframwaith cadarnhaol inni weithio oddi mewn iddo. Yn benodol, rwyf am i Gymru arwain y ffordd o ran datblygu trefn reoleiddio fwy rhanbarthol yn ein dyfroedd, gan gydweithio â'r gweinyddiaethau eraill o gwmpas môr Iwerddon a'r gwledydd eraill sy'n pysgota yno.[9]

Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru'n datblygu Strategaeth y Môr a Physgodfeydd newydd i Gymru a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2013.

[7] Marine Management Organisation, ***UK Sea Fisheries Statistics 2011,*** [fel ar 23 Medi 2013]
[8] Marine Management Organisation, ***UK Sea Fisheries Statistics 2011,*** [fel ar 23 Medi 2013]
[9] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ***Strategaeth Pysgodfeydd a Morol Cymru (Datganiad Llafar),*** 18 Mehefin 2013 [fel ar 23 Medi 2013]

## Ymateb Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi croesawu cynnwys y diwygiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y PPC ac yn enwedig y cynigion i gyflwyno elfen ranbarthol i'r broses o reoli pysgodfeydd. Dywedodd Richard Beynon, Gweinidog Amgylchedd y DU:

> Mae'r cytundeb hwn yn gam pwysig ymlaen a fydd yn gwneud pysgota yn fwy cynaliadwy, yn dod i ben â'r syniad bod modd gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio un dull cyffredinol i bawb ac yn rhoi terfyn ar yr arfer o daflu pysgod nad oes eu hangen. Mae'r polisi diffygiol hwn ar y trywydd iawn o'r diwedd.[10]

## Ymateb y Gweinyddiaethau Datganoledig

Mae ymateb Llywodraeth yr Alban i'r diwygiadau y cytunwyd arnynt wedi bod yn fwy gofalus. Er i Weinidogion yr Alban groesawu'r ymagwedd fwy rhanbarthol at reoli pysgodfeydd, maent wedi galw am ddatganoli'r pwerau o ran rheoli pysgodfeydd ymhellach o Frwsel.[11] Mae Richard Lochead, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros bysgodfeydd yn yr Alban, wedi datgan y bydd y cytundeb a wnaed ar daflu pysgod yn anodd i fflyd bysgota'r Alban ond y gall ymdopi.

Mae Michelle O'Neill, Gweinidog Amaeth a Physgodfeydd Gogledd Iwerddon, wedi datgan y bydd y cytundeb yn ddiwygiad pwysig i'r PPC ac wedi croesawu'r camau tuag at reoli pysgodfeydd mewn ffordd fwy rhanbarthol a geir yn y diwygiad.[12] Byddai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cefnogi datganoli'r gwaith o reoli pysgodfeydd ymhellach o dan y PPC. Cyhoeddwyd pecyn o gymorth ariannol i helpu fflyd bysgota Gogledd Iwerddon i addasu i ofynion y PPC newydd.

[10] Cyfieithiad o Ddatganiad i'r Wasg gan Defra, ***Historic fisheries deal secured by UK government***, 14 Mehefin 2013 [fel ar 23 Medi 2013]
[11] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth yr Alban, ***New CFP takes big step forward***, 15 Mai 2013 [fel ar 23 Medi 2013]
[12] Datganiad i'r Wasg gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, ***O'Neill Welcomes Council Agreement on CFP Package***, 15 Mai 2013 [fel ar 23 Medi 2013]

## Hynt y goflen yn sefydliadau'r UE

Fel y nodwyd eisoes, cafodd cytundeb gwleidyddol ar y rheoliad sylfaenol, sef prif elfen y pecyn diwygio, ei gytuno ar 30 Mai 2013.

Cytunwyd ar y rheoliad ar gyfer y Farchnad Gyffredin ddechrau mis Mai 2013.

Caiff y rheoliadau diwygiedig eu mabwysiadu'n gyfreithiol yn ffurfiol cyn diwedd 2013, a daw'r polisïau newydd i rym ar 1 Ionawr 2014.

Mae trafodaethau ynghylch y rheoliad sy'n ymwneud â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn mynd rhagddynt o hyd. Mae Pwyllgor Pysgodfeydd Senedd Ewrop wedi mabwysiadu ei adroddiad. Disgwylir i bleidlais gael ei chynnal ar yr adroddiad hwn yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ym mis Hydref 2013. Os mabwysiedir yr adroddiad yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Llawn, bydd y Senedd yn dechrau trafodaethau tairochrog â Chyngor y Gweinidogion a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Cytunodd Cyngor y Gweinidogion ar ei ddull cyffredinol o ran Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, sy'n sail i'w safbwynt negodi cytunedig ym mis Gorffennaf 2013.[13]

[13] Datganiad i'r Wasg gan Gyngor Senedd Ewrop, ***Cyfarfod rhif 3253 o'r Cyngor Amaeth a Physgodfeydd, 15 Gorffennaf 2013,*** [fel ar 23 Medi 2013]

## Rhagor o wybodaeth:

Gweler lincs i ymatebion rhanddeiliaid allweddol isod:

- **Europeche**
- **Greenpeace**
- **Ocean 2012**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y gwefannau canlynol:

- **Llywodraeth Cymru - Pysgodfeydd**
- **European Commission CFP Reform**
- **CFP Reform Watch**
- **Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd** neu Cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@cymru.gov.uk**) neu **Gregg Jones** (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**)